**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 15-00(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 2 Tachwedd 2000 |
| **Amser:** | 1.45pm hyd 2.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth |
| Tony Edwards | Prif Swyddog Milfeddygol Cynorthwyol Cymru |
| Gwyn Jones | Adran Polisi Amaethyddol |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a chyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd fod ymddiheuriad wedi ei dderbyn gan Karen Sinclair. Gofynnodd i’r Aelodau ddatgan unrhyw fudd a oedd yn berthnasol i’r cyfarfod. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr, a Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

**Eitem 2: Adroddiad yr Ymchwiliad BSE**

2.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi ei drefnu er mwyn trafod goblygiadau adroddiad Phillips o safbwynt amaethyddiaeth yng Nghymru a gwaith y Pwyllgor. Yr oedd Cadeirydd y Pwyllgor

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cysylltu ag ef i awgrymu cyfarfod ar y cyd yn y dyfodol i ystyried yr adroddiad yn ei grynswth.

2.2 Teimlai’r Gweinidog fod gan y Pwyllgor dri phwynt i’w hystyried:

- yr oedd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn bwriadu trafod yr adroddiad a byddai’r Pwyllgor hwnnw’n canolbwyntio ar y goblygiadau o safbwynt iechyd pobl. Dylai’r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ganolbwyntio ar y goblygiadau o safbwynt iechyd anifeiliaid;
- yr oedd angen i’r Pwyllgor adolygu’r argyfwng BSE a’r gwersi a ddysgwyd; ac
- edrych ymlaen at ystyried sut y gellid cymhwyso ac arolygu’r gwersi hyn.

2.3 Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau’r Pwyllgor yngln â chynigion y Gweinidog ac unrhyw bwyntiau eraill a oedd yn peri pryder. Codwyd y pwyntiau isod:

- cynigwyd y dylai’r Pwyllgor dderbyn adroddiad gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yngln â’r sefyllfa ddiweddaraf gyda’r afiechyd yn y fuches genedlaethol a’r rheolyddion sydd wedi eu sefydlu er mwyn rhwystro deunydd penodol sydd â risg ynghlwm wrtho rhag mynd i’r gadwyn fwyd. Nododd y Pwyllgor mai cyfrifoldeb yr Asiantaeth Safonau Bwyd oedd yr ail bwynt ac y dylid ei ystyried ar y cyd gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- yr oedd angen bodloni’r Pwyllgor fod rheolyddion effeithiol wedi eu sefydlu mewn gwledydd eraill er mwyn rhwystro cig sydd wedi ei heintio rhag cael ei fewnforio. Cytunwyd y dylid gofyn i'r Asiantaeth Safonau Bwyd gynhyrchu adroddiad yngln â’r rheolyddion sydd wedi eu sefydlu yn Ewrop;
- yr oedd angen buddsoddi mwy o arian mewn gwaith ymchwil er mwyn deall sut yr oedd BSE yn cael ei drosglwyddo a datblygu prawf diagnostig dibynadwy. Dywedodd y Gweinidog fod £65 miliwn wedi ei wario ar waith ymchwil yn y tair blynedd diwethaf a £140 miliwn er 1986. Cytunodd y dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu prawf diagnostig dibynadwy;
- yr oedd *spongiform encephalopathies* trosglwyddadwy mewn defaid yn peri pryder ac yr oedd angen cynlluniau at raid er mwyn amddiffyn y diwydiant rhag gwaharddiad posibl ar allforio. Nododd y Pwyllgor fod BSE wedi ei drosglwyddo i ddefaid mewn labordai ond nad oedd unrhyw dystiolaeth o'i fodolaeth mewn diadelloedd defaid. Yr oedd y diwydiant yng Nghymru yn dra dibynnol ar allforio; byddai unrhyw darfu ar fasnachu yn cael effaith ddifrifol iawn. Teimlai’r Gweinidog nad oedd yn debygol y byddai gwaharddiad yn cael ei bennu dan yr amgylchiadau presennol;
- byddai’n fanteisiol i’r Pwyllgor wybod sut y bwriadai’r Adran Weinyddol ymateb i’r adroddiad. Dywedodd y Gweinidog fod yr Adran Weinyddol a’r swyddogion cefnogol yn bwriadu gwneud archwiliad trylwyr o’r adroddiad ac ystyried beth oedd angen ei wneud. Byddai’r gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn y Flwyddyn Newydd cyn y drafodaeth arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn.

2.4 Cynigodd y Gweinidog y dylai’r Pwyllgor, cyn i’r adroddiad gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn:

- dderbyn adroddiad gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yngln â’r sefyllfa ddiweddaraf gyda BSE, y rheolyddion iechyd anifeiliaid sydd wedi eu sefydlu ac effeithiau posibl gwaharddiad ar waed, gwêr a gelatin;
- mynegi unrhyw bryderon sy’n deillio o adroddiad Phillips;
- cynnal cyfarfod ar y cyd â’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; ac
- ystyried adroddiad ar yr archwiliad gorffenedig.

2.5 Cytunodd y Pwyllgor â’r dull gweithredu arfaethedig hwn.

**Ysgrifenyddiaeth** **Tachwedd 2000**